Cyngor Sir Gâr

# Canllaw i Dirfeddianwyr ar Hawliau Tramwy Cyhoeddus

## Rolau a Chyfrifoldebau



CLA | CYMRU

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

# 1 | Cyflwyniad

Mae hawliau tramwy cyhoeddus yn rhan o'r Rhwydwaith Priffyrdd Cyhoeddus ac yn cael eu gwarchod gan y gyfraith.

Mae gan dirfeddianwyr a chynghorau sir gyfrifoldeb ar y cyd i sicrhau bod y rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus yn agored, yn hygyrch, ac yn ddiogel ar gyfer y cyhoedd.

Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor Sir hefyd i fynnu a diogelu hawl y cyhoedd i ddefnyddio a mwynhau'r rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus.

**Mae pedwar math o hawl dramwy gyhoeddus:**

1. **Llwybr troed** - lle mae gan y cyhoedd hawl dramwy ar droed yn unig, gyda chymorth symud lle bo hynny'n briodol.

2. **Llwybr Ceffylau** - lle mae gan y cyhoedd hawl dramwy ar droed, ar geffyl neu ar feic.

3. **Cilffordd Gyfyngedig** - lle mae gan y cyhoedd hawl dramwy ar droed, ar geffyl neu ar feic ac mewn cerbydau nad ydynt yn cael eu gyrru'n fecanyddol e.e. car a cheffyl.

4. **Cilffordd** - lle mae gan y cyhoedd hawl dramwy ar droed, ar geffyl, ar feic neu mewn cerbyd a dynnir dan geffyl a cherbyd modur gan gynnwys beiciau modur.

Mae'r Map a'r Datganiad Diffiniol yn dystiolaeth bendant o fodolaeth hawliau tramwy cyhoeddus. Cedwir y dogfennau hyn yn y Swyddfeydd Mynediad i Gefn Gwlad a gellir eu gweld trwy drefnu apwyntiad. E-bostiwch **prow@sirgar.gov.uk**

Mae map digidol o rwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus Sir Gaerfyrddin ar gael ar ein gwefan: **https://prow-carms.esdm.co.uk**

Caniateir cŵn (dan reolaeth agos), cadeiriau gwthio a phramiau ar bob math o hawliau tramwy cyhoeddus; maent yn cael eu hystyried yn ychwanegiadau arferol i ddefnyddiwr hawl dramwy gyhoeddus cyfreithlon.



## 2 | Prif Gyfrifoldebau Tirfeddianwyr

Gall tirfeddianwyr ddisgwyl y bydd ymwelwyr yn trin eu tir gyda pharch ac yn dilyn y Cod Cefn Gwlad **(https://naturalresources.wales/days-out/the-countryside-codes/?lang=cy)**

Mae disgwyliadau ar y tirfeddiannwr hefyd.

Os oes hawl dramwy gyhoeddus yn croesi eich tir, fel tirfeddiannwr neu denant mae gennych ddyletswydd gyfreithiol i sicrhau bod modd i'r cyhoedd gael mynediad iddi.  Mae hyn yn golygu bod yr hawl dramwy gyhoeddus:

- **yn rhydd o rwystrau** megis gatiau dan glo, perthi, ffensys trydan, coed yn tyfu dros y llwybr, cnydau (heblaw am borfa) neu ymddygiad bygythiol sy'n atal y cyhoedd rhag cael mynediad i hawliau tramwy cyhoeddus
- **yn rhydd o arwyddion** camarweiniol **neu fygythiol** a allai atal y cyhoedd rhag defnyddio'r hawl dramwy gyhoeddus.
- **celfi llwybr wedi'u rheoli'n dda** megis camfeydd a gatiau sy'n addas ar gyfer y math o hawliau tramwy cyhoeddus, yn hawdd ac yn ddiogel i'w defnyddio, ac wedi'u cynnal a'u cadw'n briodol.
- **dim teirw buchesi godro** dros ddeg mis oed yn cael eu cadw ar dir y mae hawl dramwy gyhoeddus yn ei groesi (mae bridiau godro cydnabyddedig yn cynnwys:  Ayrshire, Jersey, Dairy Shorthorn, Kerry, Friesian Prydeinig, Holstein Prydeinig a Guernsey)*
- **bridiau teirw cyfreithlon** yn cael eu cadw ar dir y mae hawl dramwy gyhoeddus yn ei groesi dim ond os ydynt gyda gwartheg neu heffrod*
- **yn rhydd o unrhyw anifeiliaid peryglus neu ymosodol** a allai atal y cyhoedd rhag defnyddio'r hawl dramwy gyhoeddus a/neu fod yn beryglus.

Bydd hawliau tramwy cyhoeddus ag arwyddbyst clir, sy'n cael eu cynnal a'u cadw'n dda, yn atal y cyhoedd rhag mynd ar goll, gan sicrhau eu bod yn cadw at y llwybr cywir ac i ffwrdd o ardaloedd nad ydynt yn cael eu rheoli ar gyfer mynediad cyhoeddus.

**Gallwch weld Canllawiau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ynghylch rheoli da byw yn ddiogel a mynediad cyhoeddus yma **https://www.hse.gov.uk/pubns/ais17ew.pdf.**



## Pwy sy'n gyfrifol am gamfeydd a gatiau ar hawliau tramwy cyhoeddus?

Weithiau mae angen celfi cefn gwlad (e.e. gatiau a chamfeydd) ar dirfeddianwyr at ddibenion rheoli fferm a rheoli stoc.  Cyfrifoldeb y tirfeddiannwr/meddiannydd yw'r strwythurau hyn ac maent yn eiddo iddo.

Dylai gatiau a chamfeydd newydd gydymffurfio â'r Safon Brydeinig - gellir cael rhagor o wybodaeth am y Safon Brydeinig gyfredol ar gyfer camfeydd a gatiau gan y tîm Mynediad i Gefn Gwlad drwy anfon e-bost i **prow@sirgar.gov.uk**

Mae Polisi Codi Tâl Dodrefn Hawliau Tramwy Cyhoeddus y Cyngor Sir yn amlinellu lefel y cymorth y gall perchnogion tir ei ddisgwyl ar gyfer dodrefn HTC ar eu tir. Gall tirfeddianwyr hawlio 25% tuag at gost cynnal a chadw dodrefn HTC, gellir cynyddu hyn yn ôl disgresiwn y Cyngor. Y cam cyntaf yw cysylltu â'r Cyngor i drafod unrhyw gyfraniad tuag at ddodrefn HTC cyn mynd i gostau.

Mae angen cael caniatâd gan yr awdurdod lleol cyn gosod unrhyw strwythur newydd megis gât neu gamfa ar draws hawl dramwy gyhoeddus.  Dim ond o dan amgylchiadau penodol y gellir caniatáu celfi llwybr newydd; cysylltwch â'r tîm Mynediad i Gefn Gwlad i gael rhagor o wybodaeth.

Mae tirfeddianwyr yn atebol am unrhyw anaf a achosir gan gelfi cefn gwlad sy'n adfeiliedig, yn amhriodol, ar goll neu wedi'u cynnal a'u cadw'n wael ar y rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus.

**Pwy sy'n gyfrifol am bontydd ar hawliau tramwy cyhoeddus?**

Strwythurau pontydd at ddiben mynediad ar hyd hawl dramwy gyhoeddus yn unig yw cyfrifoldeb y Cyngor Sir.

Os yw pont at ddibenion mynediad cyhoeddus a mynediad preifat, yna rhennir y cyfrifoldeb rhwng y Cyngor Sir a'r defnyddiwr/defnyddwyr preifat.

Yn yr achosion hyn, bydd y Cyngor Sir yn gweithio gyda'r tirfeddianwyr/meddianwyr sy'n defnyddio'r bont yn gyfreithlon at ddibenion mynediad preifat a bydd yn gwneud cyfraniad cymesur at waith cynnal a chadw er mwyn sicrhau bod y strwythur yn addas i'r diben.



## Pa fath o ffensys sy'n cael eu caniatáu ger hawl dramwy gyhoeddus?

Rhaid i dirfeddianwyr/meddianwyr sicrhau nad yw ffensys yn rhwystro nac yn lleihau lled hawl dramwy gyhoeddus (gweler lled hawliau tramwy cyhoeddus isod).

Mae weiren bigog yn berygl i ddefnyddwyr hawliau tramwy cyhoeddus ac nid yw'n dderbyniol ar hawliau tramwy cyhoeddus, nac yn agos iddynt, lle mae'n debygol o achosi anaf.  Ni ddylai weiren bigog fyth gael ei gosod ar ochr hawl dramwy gyhoeddus ffens gyfagos neu o amgylch pyst sy'n rhan o gamfa neu gât.  Mae tirfeddianwyr/meddianwyr yn atebol am unrhyw ddifrod/anaf a achosir gan weiren bigog a osodwyd yn amhriodol ar hawl dramwy gyhoeddus neu'n agos iddi.

Mae'r un rheolau yn berthnasol i ffensys trydan (a yw wedi'i drydanu ai peidio) â ffensys eraill; ni ddylent leihau lled hawl dramwy gyhoeddus ac ni ddylent gael eu gosod ar draws hawl dramwy gyhoeddus heb ganiatâd yr awdurdod lleol.  Lle rhoddir caniatâd, dylid gosod gât addas a'i hinswleiddio er diogelwch y cyhoedd. Dylid arddangos arwyddion rhybudd clir bob hyn a hyn sy'n nodi bod ffens drydan ger hawl dramwy gyhoeddus.

Os bydd ffens bresennol yn rhwystro hawl dramwy gyhoeddus neu os bydd angen ffens newydd a fydd yn croesi hawl dramwy gyhoeddus, rhaid diogelu mynediad cyhoeddus.

Gall strwythur sy'n cydymffurfio â'r Safon Brydeinig sydd wedi'i osod yn llinell y ffens gynnal mynediad cyhoeddus yn ddigonol, ond mae angen cael caniatâd gan yr awdurdod lleol (gweler Gatiau, Camfeydd a Strwythurau Eraill).

**Pa mor llydan yw hawl dramwy gyhoeddus?**

Nid oes lled cyffredin sy'n berthnasol i bob hawl dramwy gyhoeddus oni bai bod hynny wedi'i gofnodi yn y Datganiad Diffiniol, ac mae angen ystyried pob llwybr yn unigol.

Mae rhagdybiaeth fod lled hawl dramwy gyhoeddus sy'n dilyn llwybr neu lôn ddiffiniedig yn ymestyn i'r lled hanesyddol llawn, o ffin i ffin neu, os nad oes ffiniau, i'r lled sydd wedi'i fesur wrth raddfa ar fapiau hanesyddol.

Lle na ellir diffinio lled drwy'r naill ddull uchod na'r llall neu drwy unrhyw ddull arall, ein nod yw cynnal o leiaf y lled canlynol ar hyd pob hawl dramwy gyhoeddus yn Sir Gaerfyrddin.

**Hawl dramwy gyhoeddus ar draws cae:**
**Llwybr troed 1 metr. Llwybr ceffylau 2 fetr. Cilffordd 3 metr.**

**Hawl dramwy gyhoeddus ar hyd ymyl cae:**
**Llwybr troed 1.5 metr. Llwybr ceffylau 3 metr. Cilffordd 3 metr.**

Os bydd tirfeddiannwr/meddiannydd yn dymuno ffensio hawl dramwy gyhoeddus oddi wrth dir cyfagos, rydym yn gofyn am ganiatáu lled ychwanegol o 0.5 metr. Mae'r lled ychwanegol yn golygu nad oes rhaid i lystyfiant sy'n ymledu gael ei reoli'n agos ac yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn er mwyn i'r llwybr barhau i fod yn hygyrch.

## Pwy ddylai gynnal a chadw wyneb hawl dramwy gyhoeddus?

Fel rheol mae hawliau tramwy cyhoeddus yn mynd dros dir preifat ond mae wyneb y llwybr yn 'perthyn' i'r Cyngor Sir. Mae hyn yn golygu mai'r Cyngor Sir fydd fel arfer yn gyfrifol am gadw wyneb hawliau tramwy cyhoeddus mewn cyflwr addas ar gyfer eu statws cyhoeddus.

Eithriad i hyn yw lle mae llwybr yr hawl dramwy gyhoeddus yn fynediad preifat hefyd, megis y ffordd fynediad i dŷ neu fferm. Yn yr achosion hyn, bydd y Cyngor Sir yn gweithio gyda thirfeddianwyr/deiliaid hawddfraint ac yn gwneud cyfraniad cymesur at waith cynnal a chadw i sicrhau bod yr wyneb yn addas at y diben.

Mae'n drosedd amharu ar wyneb hawl dramwy gyhoeddus, heblaw am aredig (gweler y wefan) heb ganiatâd yr Awdurdod. Dylid gwneud unrhyw waith arfaethedig i wyneb Hawliau Tramwy Cyhoeddus gyda chytundeb yr Awdurdod lleol gan fod wyneb y llwybr yn 'perthyn' yn gyfreithiol i ni.

Dylai'r tirfeddiannwr, neu'r contractwr ar ei ran, gysylltu â ni i amlinellu'r cynigion er mwyn i ni gymeradwyo'r math a'r fanyleb cyn i'r gwaith ddechrau. Mae trafodaeth ymlaen llaw hefyd yn caniatáu inni ddelio ag unrhyw ofynion cau dros dro wrth i'r gwaith barhau.

## Pwy ddylai gynnal perthi?

Dylai'r tirfeddiannwr/meddiannydd docio'r holl lystyfiant sy'n ymledu i hawliau tramwy cyhoeddus cyfagos.

Dylid gwneud gwaith cynnal a chadw rheolaidd i sicrhau nad yw llystyfiant sy'n ymledu, coed sydd wedi gordyfu neu wedi cwympo, mieri neu brysgwydd yn rhwystro nac yn lleihau lled hawl dramwy gyhoeddus (gweler lled hawliau tramwy cyhoeddus).

## A gaf aredig a thyfu cnydau ar draws hawl dramwy gyhoeddus?

Os nad yw'n rhesymol gyfleus osgoi aredig neu dyfu cnydau ar hawl dramwy gyhoeddus sy'n croesi cae yna mae'n rhaid adfer yr hawl dramwy gyhoeddus cyn pen 14 diwrnod, ag wyneb cadarn a gwastad. Wedi hynny dylid adfer unrhyw amharu pellach cyn pen 24 awr.

Dylid cadw hawl dramwy gyhoeddus yn rhydd o gnydau i atal llinell yr hawl dramwy rhag cael ei rhwystro.

## A gaf newid llwybr hawl dramwy gyhoeddus?

Os bydd tirfeddiannwr/meddiannydd yn dymuno newid aliniad hawl dramwy gyhoeddus i gyd-fynd yn well â'i amgylchiadau gall wneud cais i'r awdurdod lleol am Orchymyn Gwyro Llwybr Cyhoeddus.

Ni chaniateir symud hawl dramwy gyhoeddus heb orchymyn cyfreithiol.  Cysylltwch â'r tîm Mynediad i Gefn Gwlad (neu ewch i'n gwefan) i gael rhagor o wybodaeth a'r ffurflenni angenrheidiol. E-bostiwch **prow@sirgar.gov.uk**

## A gaf ddileu hawl dramwy gyhoeddus o'm tir?

Gellir diddymu hawl dramwy os gellir profi nad oes ei hangen at ddefnydd cyhoeddus a'i bod yn briodol ei chau.

Mae'n anodd iawn profi hyn, ac anaml iawn y mae gorchmynion diddymu yn cael eu gwneud. Os ydych yn ystyried gwneud cais am orchymyn, y cam cyntaf yw cysylltu â'r tîm Mynediad i Gefn Gwlad drwy e-bostio **prow@sirgar.gov.uk.**

## A allaf herio cywirdeb y Map a'r Datganiad Diffiniol?

Mae ymddangosiad llwybr neu ffordd ar y Map a'r Datganiad Diffiniol yn dystiolaeth bendant o'u bodolaeth yn ôl y gyfraith, ond mae'r map a'r datganiad yn amodol ar adolygiad parhaus i sicrhau bod y cofnod cyfreithiol yn parhau'n gywir.

Os yw tirfeddiannwr/preswylydd yn credu bod ganddo ddigon o dystiolaeth i gefnogi'r broses o wneud newid i'r cofnod cyfreithiol drwy naill ai ychwanegu, dileu neu newid hawl dramwy gyhoeddus gofnodedig ar draws eu heiddo, gall wneud cais am Orchymyn Addasu Mapiau Diffiniol.

Mae ceisiadau am Orchymyn Addasu Mapiau Diffiniol yn golygu cwblhau nifer o ffurflenni ac mae nifer o gamau; rhai ohonynt â chyfnodau penodol; y mae'n rhaid i'r Awdurdod Lleol eu dilyn cyn y gellir penderfynu ynghylch y cais. Mae'n rhaid i'r Cyngor fod yn fodlon fod y profion cyfreithiol perthnasol o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (1981) wedi'u cyflawni cyn y gellir gwneud a chadarnhau Gorchymyn Addasu Mapiau Diffiniol.

Ni chaniateir gwneud unrhyw newid i'r Map a'r Datganiad Diffiniol heb orchymyn cyfreithiol.  Cysylltwch â'r tîm Mynediad i Gefn Gwlad (neu ewch i'n gwefan) i gael rhagor o wybodaeth a'r ffurflenni angenrheidiol.

**A allaf ddiogelu fy nhir rhag i fwy o hawliau tramwy cyhoeddus gael eu hychwanegu?**

Os yw'r cyhoedd yn defnyddio llwybr anffurfiol yn rheolaidd gall hynny olygu y caiff ei gydnabod yn hawl dramwy gyhoeddus swyddogol.

Er mwyn atal hyn, mae angen i chi ddangos, ar yr adeg berthnasol, nad oeddech yn bwriadu i'r llwybr ddod yn hawl dramwy gyhoeddus.

O dan yr amgylchiadau hyn, gall unrhyw gamau amlwg sy'n gwneud aelodau o'r cyhoedd yn ymwybodol nad ydych yn bwriadu neilltuo hawl dramwy gyhoeddus swyddogol, ddiogelu tir rhag i hawliau tramwy cyhoeddus pellach gael eu hychwanegu.

Byddai camau megis cyflwyno datganiad o dan adran 31(6) Deddf Priffyrdd 1980 neu osod a chynnal arwyddion sy'n nodi nad yw llwybr anffurfiol yn hawl dramwy gyhoeddus ill dau yn ffyrdd effeithiol o ddangos diffyg bwriad i neilltuo hawl dramwy gyhoeddus ychwanegol.

Rhaid i bob asiant/contractwr sy'n gweithio ar ran y tirfeddiannwr neu'r tenant ddeall y cyfrifoldebau cyfreithiol hyn.

Pan na fydd rhwymedigaethau tirfeddianwyr yn cael eu cynnal, bydd y Cyngor yn gwneud pob ymgais resymol i ddatrys unrhyw broblemau heb droi at y llysoedd neu gamau cyfreithiol priodol eraill ond bydd, pan fo angen, yn gwneud defnydd llawn o'i bwerau cyfreithiol.

## 3 | Dolenni defnyddiol:

Gallwch weld mwy o wybodaeth am hawliau tramwy cyhoeddus ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin Hawliau Tramwy Cyhoeddus (**llyw. cymru)**

Mae'r Map Diffiniol a'r Datganiad yn dystiolaeth derfynol o fodolaeth Hawliau Tramwy Cyhoeddus. Cedwir y dogfennau hyn yn y Swyddfeydd Mynediad i Gefn Gwlad ac maent ar gael i'w gweld trwy apwyntiad. E-bostiwch **prow@sirgar.gov.uk**

Mae map digidol o rwydwaith HTC Sir Gaerfyrddin ar gael ar ein gwefan, **https://prow-carms.esdm.co.uk**

Os nad ydych yn gallu cyrchu'r wefan neu os nad yw'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ar gael, gallwch gysylltu â Swyddogion Mynediad y Cyngor Sir trwy anfon e-bost i **prow@sirgar.gov.uk**

Os ydych yn dymuno cysylltu â'r Cyngor i roi gwybod am fater cynnal a chadw ar hawl dramwy gyhoeddus yr ydym yn gyfrifol amdani rhowch wybod amdano ar-lein yma **https://prow-carms. esdm.co.uk** anfonwch e-bost i **prowmaintenance@sirgar.gov.uk** neu ffoniwch **01267 234567**

**Canllawiau Llywodraeth Cymru**
https://www.llyw.cymru/hawliau-tramwy-cyhoeddus-canllaw

**Cyfoeth Naturiol Cymru, Hawliau Tramwy Cyhoeddus yng Nghymru**
https://naturalresources.wales/days-out/recreation-and-access-policy-advice-and-guidance/managing-access/public-rights-of-way/?lang=cy

## Canllawiau Rheoli Mynediad Cyfoeth Naturiol Cymru

https://naturalresources.wales/days-out/recreation-and-access-policy-advice-and-guidance/managing-access/definitive-map-and-statement/?lang=cy

## Cyngor Cymdeithas y Cerddwyr

https://www.ramblers.org.uk/advice/paths-in-england-and-wales/rights-of-way-law.aspx

## Nodiadau: